COLEG CAMBRIA

CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL

2024-2028

Ein Cenhadaeth Cydraddoldeb:

Gwneud newid mewnweledol a rhagweithiol i ddod yn goleg cwbl gynhwysol yn ddiwylliannol, emosiynol, amgylcheddol ac addysgol

Ein Gwerthoedd Cydraddoldeb:

Croestoriadol a Thorfol, Deallus yn Ddiwylliannol ac yn Emosiynol, Gwybodus a Mewnweledol, Rhagweithiol ac Ymatebol

Ein Hamcanion Cydraddoldeb:

Amcan Un:
Diwylliant o Garedigrwydd

Byddwn yn sicrhau bod diwylliant o garedigrwydd wedi'i wreiddio'n gyfannol ledled Coleg Cambria lle mae pawb yn elwa ar yr egwyddorion canlynol: diogelwch, ymddiriedaeth, gonestrwydd, dealltwriaeth, a chefnogaeth

Amcan Dau:
Grymuso â Gwybodaeth

Byddwn yn grymuso ein cydweithwyr, ein myfyrwyr, a'n cymunedau ehangach â gwybodaeth am hunaniaeth, profiadau a diwylliant i'w galluogi nhw i gael dylanwad

Amcan Tri:
Amgylcheddau Cynhwysol

Byddwn yn archwilio ac yn gwerthuso'n rheolaidd gynwysoldeb ein hadeiladau a'n hamgylcheddau i sicrhau bod pawb yn teimlo'n gartrefol yng Ngholeg Cambria

Amcan Pedwar:
Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (CAC) Mewnweledol

Byddwn yn casglu data priodol er mwyn cael gwared ar rwystrau at gydraddoldeb ac ehangu dealltwriaeth o amrywiaeth

Amcan Pump:
Sicrhau Tegwch

Byddwn yn creu tegwch i bawb wrth adnabod rhwystrau a chael gwared arnynt, a gweithredu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer taith y dysgwyr a'r gweithwyr

1. Cyflwyniad

Mae Coleg Cambria wedi ymrwymo i fod yn goleg gwbl gynhwysol, lle mae cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'u gwreiddio'n gyfannol ar hyd ein gwasanaethau. Rydym yn ymdrechu i greu Coleg Cambria sy'n gynhwysol, cefnogol, teg, caredig, diogel a deallgar. Yng Ngholeg Cambria rydym wedi ymrwymo i ryddhau cymunedau sy'n profi ymyleiddio mewn cymdeithas wrth adnabod unrhyw rwystrau sy'n eu hatal nhw rhag cael yr un cyfle â gweddill y gymdeithas i ffynnu a chael gwared ar y rhwystrau hynny.

Mae'r coleg wedi ymrwymo i sicrhau bod dull croestoriadol a thorfol yn sail i'n dull cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Rydym yn ymwybodol bod nifer o grwpiau a phobl yn profi gwahaniaethu mewn cymdeithas oherwydd eu hunaniaeth. Mae gennym ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i fynd i'r afael â gwahaniaethu o bob math, ac rydym am gefnogi a gwerthfawrogi pob aelod o'n cymuned ni waeth beth fo'u hunaniaeth, eu nodweddion, neu beth bynnag sy'n eu gwneud nhw, yn nhw. Mae disgwyl i bob aelod o gymuned Coleg Cambria drin ei gilydd gyda pharch, urddas a charedigrwydd.

Dros y blynyddoedd diweddar rydym wedi datblygu dull cydraddoldeb ac amrywiaeth newydd wrth archwilio ein statws presennol ac ymestyn cyrhaeddiad a chyffredinolrwydd CAC trwy gydol y coleg. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cynyddu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein coleg, fodd bynnag rydym yn gwella'n barhaus. Byddwn yn parhau i fod yn rhagweithiol tuag at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac yn creu Coleg Cambria lle mae pawb yn cael eu gwerthfawrogi ac yn teimlo'n rhydd.

Rydym yn falch o gyflwyno Cynllun Strategol Coleg Cambria 2024-2028 a fydd yn ein symud ni ymlaen i ran newydd o'n gwaith cydraddoldeb ac amrywiaeth. Bydd y cynllun hwn yn dod ag oes newydd ble rydym yn canolbwyntio'n rhagor ar integreiddio arferion cynhwysol a theg yn rhagor o fewn ein coleg, a byddwn yn ymroddedig i wneud hynny.

Gwybodaeth am Goleg Cambria

Mae Coleg Cambria wedi sefydlu ei hun yn gyflym fel darparwr addysg blaenllaw yn y Deyrnas Unedig. Prif flaenoriaeth y coleg yw darparu addysgu a dysgu rhagorol, er mwyn estyn, herio ac ysbrydoli pob dysgwr i archwilio eu potensial llawn a'i gyflawni.

Dyma un o golegau mwyaf y Deyrnas Unedig, gyda thros 6,300 o fyfyrwyr llawn amser a 6,500 o ddysgwyr rhan-amser. Mae Cambria yn cynnig ystod eang o gyrsiau llawn amser a rhan-amser ledled chwe safle'r coleg, gan gynnwys cyrsiau Safon Uwch, cymwysterau galwedigaethol, Cymraeg i Oedolion a rhaglenni Addysg Uwch. Mae'r coleg hefyd yn cydweithio â thros 1,000 o gyflogwyr i gynnig nifer o gyfleoedd prentisiaethau a hyfforddeiaethau gyda chysylltiadau cadarn â chyflogaeth leol.

Ar y ffin â Lloegr yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, mae Cambria yn cynnig cyfleusterau o'r radd flaenaf gan ddefnyddio technoleg flaenllaw i hwyluso arddulliau dysgu newydd ac i ddiwallu anghenion busnes. Mae rhaglen fuddsoddi ddeinamig y coleg yn ei ystadau a'i adnoddau yn canolbwyntio'n gryf ar wella profiadau dysgwyr. Rydym yn rhoi ein myfyrwyr wrth wraidd popeth a wnawn gan ymfalchïo mewn darparu profiad dysgu personol o ansawdd uchel. Mae ymgysylltiad a dyhead ar draws y coleg yn gryf, gyda boddhad myfyrwyr a staff i'w weld yn glir yn y canlyniadau cadarnhaol i'n harolwg.

Y Gyfraith

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cyflwyno Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae'r Ddeddf yn gwahardd gwahaniaethu mewn cyflogaeth, addysg a darparu nwyddau a gwasanaethau mewn perthynas â naw o 'Nodweddion Gwarchodedig' sydd fel a ganlyn:

Oedran, Anabledd, Ailbennu Rhywedd, Priodas neu Bartneriaeth Sifil, Beichiogrwydd neu Famolaeth, Hil neu Ethnigrwydd, Crefydd neu Gred, Rhyw, Cyfeiriadedd Rhywiol

Mae'r Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn nodi bod yn rhaid i ni roi sylw dyledus i'r angen i:

- **gael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth** ac ymddygiad arall a waherddir gan y ddeddf.
- **hybu cyfle cyfartal** rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad oes ganddynt y nodweddion hynny.
- **meithrin cysylltiadau da** rhwng pobl sydd gan nodweddion gwarchodedig a'r rhai nad oes ganddynt y nodweddion hynny.

Bydd cyflawni'r ddyletswydd yn cynnwys trin rhai pobl yn unol â'u hanghenion unigol, cyn belled nad yw hynny'n mynd yn groes i ddarpariaethau eraill yn y Ddeddf. Felly yn syml, nid yw 'cydraddoldeb' yn golygu trin pawb yr un fath. Mae'n golygu deall a mynd i'r afael â'r gwahanol rwystrau i gyfle cyfartal y mae gwahanol bobl yn eu hwynebu, fel bod pawb yn cael cyfle teg i gyflawni eu potensial. Nod cyffredinol y ddyletswydd cydraddoldeb yw sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei brif ffrydio i waith y Coleg, a dylai hynny yn ei dro arwain at ddarparu gwasanaethau a chanlyniadau yn fwy priodol, gan ystyried cefndiroedd unigolion.

2. Cenhadaeth a Gwerthoedd Cydraddoldeb

Yng Ngholeg Cambria rydym yn ceisio bod yn un o'r colegau mwyaf rhagweithiol yn y Deyrnas Unedig ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Rydym eisiau cael enw da am ein dull cynhwysol, ac rydym yn ymfalchïo yn sut allwn gael gwared ar rwystrau a chreu amgylchedd teg i bawb. Rydym wedi datblygu ein cenhadaeth gyffredinol i lywio ein holl waith CAC.

Ein Cenhadaeth Cydraddoldeb: Gwneud newid mewnweledol a rhagweithiol i ddod yn goleg cwbl gynhwysol yn ddiwylliannol, emosiynol, amgylcheddol ac addysgol

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi cael ei greu trwy ein hegwyddorion a gwerthoedd sy'n sail i'n dull CAC. Mae'r gwerthoedd hyn yn llywio sut rydym yn datblygu, monitro a gweithredu ein hamcanion.

Gwerthoedd Cydraddoldeb:

Croestoriadol a Thorfol

Mae ein gweledigaeth yn arwain dull croestoriadol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Byddwn yn creu cymuned lle mae pawb yn cael eu gwerthfawrogi, a lle rydym yn deall yr holl ffyrdd y mae nodweddion yn creu hunaniaeth gyfan. Gan ddefnyddio lens groestoriadol rydym yn gweld sut mae hunaniaethau yn croestorri a rhyngweithio i greu profiadau unigryw o ormes. Byddwn yn sicrhau ein bod yn cydweithredu i fynd i'r afael â gwahaniaethu, lle gall cymunedau gydweithio i greu amgylchedd lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu cefnogi ac yn cael eu cynnwys.

Deallus yn Emosiynol a Diwylliannol

Rydym yn falch o'n dealltwriaeth ddofn o sut mae profiadau a hunaniaeth yn effeithio ar bobl. Byddwn yn sicrhau bod ein darpariaeth, ein gwasanaethau a'n dulliau yn cael eu llywio gan ymwybyddiaeth o effaith profiad ar sut mae pobl yn gallu cyrchu'r rhain. Rydym yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar drawma ac sy'n ddiwylliannol gymwys i sicrhau bod pawb yn gallu cyrchu'r hyn rydym yn ei wneud yn deg ac yn elwa o hynny.

Gwybodus a Mewnweledol

Mae'n hanfodol bod ein holl waith cydraddoldeb wedi'i lywio gan wybodaeth, ymwybyddiaeth a mewnwelediad i'r cymunedau y mae'n effeithio fwyaf arnynt. Rydym yn ceisio canolbwyntio'n ddyfnach ar ddefnyddio ymchwil, polisi, data a mewnwelediadau i lywio ein blaenoriaethau a gweithredoedd o dan agenda CAC. Rydym hefyd yn ymdrechu i gyfrannu at y broses ehangach o gasglu gwybodaeth am hunaniaeth a nodweddion trwy gynnal ein hymchwil a'n dealltwriaeth ein hunain i'w lledaenu ledled y Sector Addysg Bellach (AB).

Rhagweithiol ac Ymatebol

Rydym yn ceisio bod ar flaen y gad o ran CAC mewn AB ledled y Deyrnas Unedig. Rydym eisiau arwain mentrau arloesol a chynyddol er mwyn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i bawb, o fewn cymuned Coleg Cambria a thu hwnt. Byddwn yn effeithio'n gadarnhaol ar ein cymunedau lleol ac yn aros fel y prif lais yn y sector ar yr holl faterion sy'n berthnasol â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

3. Amcanion Cydraddoldeb

Wrth osod ein hamcanion cydraddoldeb gwnaethom fynd i'r afael ag ymgynghoriad ac ymchwil i brofiadau a phersbectifau ein dysgwyr, ein cydweithwyr a'n llywodraethwyr. Gwnaeth hyn ein galluogi i ddatblygu amcanion cydraddoldeb sy'n cynnig newidiadau gwerthfawr i'n cymuned o ran cefnogi sut mae cydraddoldeb yn edrych a theimlo iddynt. Er mwyn deall profiad a barn ein dysgwyr, cydweithwyr a llywodraethwyr, gwnaethom ymgynghori gyda'r canlynol:

- Panel Profiadau Byw y Coleg
- Cynrychiolwyr Myfyrwyr
- Swyddogion Cydraddoldeb Myfyrwyr
- Bwrdd Llywodraethu

Er mwyn llywio blaenoriaethau a phersbectifau ein dysgwyr a'n cydweithwyr, gwnaethom adolygu ein:

- Holiadur LIFE
- Arolwg Staff
- Arolwg Llais Dysgwyr
- Sgyrsiau Cynnydd

Cyn cyhoeddi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, mae wedi cael ei gymeradwyo gan y pwyllgorau canlynol:

- Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth - 29 Chwefror 2024
- Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant - 6 Mawrth 2024
- Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant - 15 Mawrth 2024
- Bwrdd Llywodraethu - 20 Mawrth 2024

Yng Ngholeg Cambria mae gennym ddull cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant sy'n groestoriadol a chyfunol. Mae hyn yn golygu ein bod yn cynnal prosiectau, mentrau a newidiadau i effeithio ar ddiwylliant, ethos a dealltwriaeth i bawb. Mae ein hamcanion cydraddoldeb yn adlewyrchu'r dull hwn trwy ganolbwyntio ar nodau cyffredinol a fydd o fudd i'r gymuned gyfan waeth beth fo'u nodweddion. Wrth baratoi ein hadroddiad rydym wedi adolygu ein data presennol ar nodweddion gwarchodedig ein dysgwyr a'n cydweithwyr i sicrhau ein bod yn deall amrywiaeth ein cymuned. Gellir dod o hyd i'n gwybodaeth ddiweddaraf am gydraddoldeb yn ein Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2023.

Rydym hefyd wedi cyhoeddi ein bylchau cyflog Rhyweddau, Ethnigrwydd ac Anabledd a byddwn yn parhau i gyhoeddi'r rhain yn flynyddol. Rydym wedi datblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r gweithredoedd a gellir dod o hyd iddynt yn ein Hadroddiad Bwlch Cyflog 2023. Bydd y camau gweithredu hyn yn cael eu hymgorffori yn ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb mewnol.

Rydym wedi datblygu **Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol** hefyd sy'n cefnogi ein nodau i fod yn sefydliad gwrth-hiliol. Caiff hyn ei adolygu'n rheolaidd. Bydd y camau gweithredu hyn yn cael eu hymgorffori yn ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb mewnol.

	Oedran	Anabledd	Ailbennu Rhywedd	Statws Priodasol	Beichiogrwydd neu Famolaeth	Hil neu Ethnigrwydd	Crefydd neu Gred	Cyfeiriadedd Rhywiol	Rhyw	Aflonyddu, Gwahaniaethu, Erledigaeth	Cyfle Cyfartal	Meithrin Perthnasau Da
Amcan Un: Diwylliant o Garedigrwydd Byddwn yn sicrhau bod diwylliant o garedigrwydd wedi'i wreiddio'n gyfannol ledled Coleg Cambria er mwyn i bawb elwa ar yr egwyddorion canlynol: diogelwch, ymddiriedaeth, gonestrwydd, dealltwriaeth, a chefnogaeth												
Ffurfio dull cydlynol o atal, adrodd ac ymateb i gam-drin cymheiriaid	☑	☑	☑			☑	☑	☑	☑	☑		
Sicrhau bod ein holl ddarpariaethau cymorth yn ymgorffori dealltwriaeth o hunaniaeth, profiadau a nodweddion yn gyfannol		☑	☑			☑	☑	☑	☑			☑
Dathlu diwrnodau cydraddoldeb allweddol yn ystod y flwyddyn gyda rhagor o wybodaeth, digwyddiadau a gweithgareddau		☑	☑			☑	☑	☑	☑			☑
Datblygu cyfleoedd i ddysgwyr, cydweithwyr a'r gymuned ehangach gael rhan weithredol wrth lunio cymdeithas gyfartal	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑		☑	
Deall profiadau newidiol dysgwyr i wreiddio a hyrwyddo parch a goddefgarwch	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑			☑

3. Amcanion Cydraddoldeb

	Oedran	Anabledd	Ailbennu Rhywedd	Statws Priodasol	Beichiogrwydd neu Famolaeth	Hil neu Ethnigrwydd	Crefydd neu Gred	Cyfeiriadedd Rhywiol	Rhyw	Aflonyddu, Gwahaniaethu, Erledigaeth	Cyfle Cyfartal	Meithrin Perthnasau Da
Amcan Dau: Grymuso â Gwybodaeth Byddwn yn grymuso ein cydweithwyr, ein myfyrwyr, a'n cymunedau ehangach â gwybodaeth am hunaniaeth, profiadau a diwylliant i'w galluogi nhw i gael dylanwad												
Creu a darparu rhaglen hyfforddi cydraddoldeb cynhwysfawr ar gyfer cydweithwyr	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑		☑	☑
Sicrhau bod dealltwriaeth o hunaniaeth, profiad a diwylliant wedi'i ymgorffori yn y cwricwlwm	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑			☑
Meithrin iaith gyffredin ar gydraddoldeb sy'n seiliedig ar bolisi'r sector a mewnwelediad er mwyn annog sgyrsiau	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑			☑
Datblygu cyrsiau rhan-amser yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant er mwyn grymuso ein cymunedau ehangach	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑			☑
Amcan Tri: Amgylcheddau Cynhwysol Byddwn yn archwilio ac yn gwerthuso'n rheolaidd gynwysoldeb ein hadeiladau a'n hamgylcheddau i sicrhau bod pawb yn teimlo'n gartrefol yng Ngholeg Cambria												
Sefydlu trefn ar gyfer archwiliadau cynhwysiant blynyddol ar gyfer ein holl safleoedd, lleoedd ac unrhyw gynlluniau ar gyfer y dyfodol. Sicrhau ein bod yn cysylltu â sefydliadau arbenigol i lywio ein harchwiliadau.		☑	☑		☑		☑			☑		
Adeiladu cyfleusterau priodol ar gyfer pob hunaniaeth ar bob safle gan gynnwys seilwaith a chynigion		☑	☑		☑		☑				☑	
Defnyddio technolegau newydd a rhai sy'n datblygu er mwyn newid a gwella'r ddarpariaeth cydraddoldeb	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑		☑	
Adolygu ein dulliau cyfathrebu er mwyn deall ac archwilio i effaith yr iaith y byddwn yn ei defnyddio		☑				☑				☑	☑	
Sicrhau bod ymrwymiad Coleg Cambria i amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant yn cael ei arddangos yn weledol gan sefydlu'r coleg fel amgylchedd diogel i bawb	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑			☑
Amcan Pedwar: Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Mewnweledol Byddwn yn casglu data priodol er mwyn cael gwared ar rwystrau at gydraddoldeb ac ehangu dealltwriaeth o amrywiaeth												
Adolygu ein dulliau casglu data er mwyn sicrhau bod data cydraddoldeb cydweithwyr a dysgwyr yn gywir ac yn addas	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
Defnyddio data, ymchwil a'r polisi i lywio'r holl gynllunio cydraddoldeb gan aros ar y blaen i newidiadau ym maes Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑			☑
Adolygu ein canllawiau Asesiad Effaith Amgylcheddol gan wneud defnydd ychwanegol ohonynt y tu hwnt i'r polisïau fel rhan o waith archwilio holl brosesau a gwasanaethau'r coleg	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑		
Rhoi rhagor o bwyslais ar gydraddoldeb yn ein systemau llywodraethu er mwyn sicrhau ei fod yn rhan o bopeth a wnawn	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑		☑	
Defnyddio offer a fframweithiau meincnodi cenedlaethol er mwyn monitro ein safle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth chynhwysiant	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑		☑	
Amcan Pump: Sicrhau Tegwch Byddwn yn creu tegwch i bawb wrth adnabod rhwystrau a chael gwared arnynt, a gweithredu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer taith y dysgwyr a'r gweithwyr												
Darparu cymorth a phrofiadau dysgu berthnasol ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn astudio llwybrau Addysg Bellach	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑		☑	
Darparu profiad pontio croesawgar i fyfyrwyr o gymunedau amrywiol fel bod pawb yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u bod yn rhan o Goleg Cambria o'r eiliad y maent yn cyrraedd	☑	☑	☑			☑	☑	☑			☑	
Darparu ffyrdd creadigol o sicrhau bod staff yn cael eu recriwtio ac yn gwneud cynnydd mewn modd teg a chynhwysol	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	
Ymgymryd ag adolygiad blynyddol o fylchau cyflog o ganlyniad i rhywedd, ethnigrwydd neu anabledd a gweithredu ar unrhyw gamau sydd wedi'u nodi er mwyn cau'r bylchau hyn		☑				☑			☑	☑		
Ehangu'r defnydd o'r dangosfwrdd DICE er mwyn adolygu, monitro a threfnu ymyrraeth ar gyfer unrhyw fylchau sydd wedi'u nodi	☑	☑	☑		☑	☑	☑	☑	☑	☑	☑	

Amcan Un:
Diwylliant o Garedigrwydd

Byddwn yn sicrhau bod diwylliant o garedigrwydd wedi'i wreiddio'n gyfannol ledled Coleg Cambria er mwyn i bawb elwa ar yr egwyddorion canlynol: diogelwch, ymddiriedaeth, gonestrwydd, dealltwriaeth, a chefnogaeth

Er mwyn cyflawni'r amcan hwn byddwn yn:	Amserlen (cynllun gweithredu manwl wedi'i fonitro'n fewnol)		
	Gwaith yn y cyfnod cynnar	**Nodau tymor canolig**	**Nodau tymor hir**
Ffurfio dull cydlynol o atal, adrodd ac ymateb i gam-drin cymheiriaid	Ymchwilio i gyffredinrwydd a phrofiadau'r mater a chodi ymwybyddiaeth ymhlith staff a dysgwyr	Datblygu system adrodd gadarn a rhaglen hyfforddi staff i ymateb yn ddigonol i'r mater	Monitro'r data o ran adrodd a datblygu rhaglen addysgiadol i atal y mater
Sicrhau bod ein holl ddarpariaethau cymorth yn ymgorffori dealltwriaeth o hunaniaeth, profiadau a nodweddion yn gyfannol	Nodi rhwystrau i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth gan wahanol grwpiau o bobl	Datblygu adnoddau i sicrhau bod gan wasanaethau ddealltwriaeth o hunaniaeth, profiad a nodweddion	Gweithredu newidiadau i'n gwasanaethau yn unol ag arfer gorau i sicrhau bod cymorth yn hygyrch i bawb
Dathlu diwrnodau cydraddoldeb allweddol yn ystod y flwyddyn gyda rhagor o wybodaeth, digwyddiadau a gweithgareddau	Creu calendr cydraddoldeb rhyngweithiol sy'n nodi dyddiau allweddol trwy gydol y flwyddyn ac yn darparu gwybodaeth	Cyflwyno digwyddiadau a gweithgareddau gwell i ddathlu diwrnodau allweddol diwylliannol a dathlu	Cydlynu'r digwyddiadau o'n holl gynigion i ddatblygu dull cyson i gefnogi diwrnodau
Datblygu cyfleoedd i ddysgwyr, cydweithwyr a'r gymuned ehangach gael rhan weithredol wrth lunio cymdeithas gyfartal	Adolygu ein systemau cynrychiolaeth dysgwyr a staff i wreiddio profiad byw yn gyfannol o fewn cynllunio	Cadarnhau ein cysylltiadau gyda grwpiau cymunedol lleol, asiantaethau a sefydliadau sy'n cefnogi cydraddoldeb	Cynnwys staff a dysgwyr mewn gweithgareddau, digwyddiadau a mentrau allanol a mewnol i gefnogi CAC
Deall profiadau newidiol dysgwyr i wreiddio a hyrwyddo parch a goddefgarwch	Ymgynghori gyda dysgwyr i ddyfnhau ein dealltwriaeth o'u profiadau a'u hunaniaethau	Codi ymwybyddiaeth staff o brofiadau dysgwyr a datblygu dull cydweithredol tuag at ymddygiad	Datblygu dull ymddygiad dysgwyr emosiynol a diwylliannol ddeallus

Amcan Dau:
Grymuso â Gwybodaeth

Byddwn yn grymuso ein cydweithwyr, ein myfyrwyr, a'n cymunedau ehangach â gwybodaeth am hunaniaeth, profiadau a diwylliant i'w galluogi nhw i gael dylanwad

Er mwyn cyflawni'r amcan hwn byddwn yn:	Amserlen (cynllun gweithredu manwl wedi'i fonitro'n fewnol)		
	Gwaith yn y cyfnod cynnar	**Nodau tymor canolig**	**Nodau tymor hir**
Creu a darparu rhaglen hyfforddi cydraddoldeb cynhwysfawr ar gyfer cydweithwyr	Archwilio ein hyfforddiant presennol ac anghenion cydweithwyr i nodi hyfforddiant ar gyfer datblygu	Cynllunio a chyflwyno rhaglen well newydd o hyfforddiant cydraddoldeb staff	Adolygu a gwella ein darpariaeth hyfforddiant yn barhaus ac archwilio opsiynau ar gyfer cyflwyno'n allanol i'r gymuned ehangach
Sicrhau bod dealltwriaeth o hunaniaeth, profiad a diwylliant wedi'i ymgorffori yn y cwricwlwm	Gan ddefnyddio cyngor, arweiniad ac adnoddau, bydd Cyfarwyddwyr Cwricwlwm yn cynnal archwiliadau i ganfod pa mor gyffredin yw CAC ar hyn o bryd a nodi meysydd i'w gwella	Gweithio gyda rhaglenni a phrosiectau cenedlaethol i wreiddio cwricwlwm amrywiol yn ein darpariaeth	Datblygu cynllun rhannu i adrannau allu rhannu arfer orau o ran gwreiddio CAC yn y cwricwlwm gyda'r coleg ehangach
Meithrin iaith gyffredin ar gydraddoldeb sy'n seiliedig ar bolisi'r sector a mewnwelediad er mwyn annog sgyrsiau	Adolygu ein geiriadur Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac adnoddau i bobl ddeall iaith gydraddoldeb	Gweithio gyda'r sector i ddatblygu diffiniadau a rennir ar gyfer termau sy'n ymwneud ag CAC i sefydlu iaith a rennir	Adolygu'n barhaus yr iaith rydym yn ei defnyddio i drafod CAC gyda mewnwelediadau o ymgysylltu â dysgwyr a staff
Datblygu cyrsiau rhan-amser yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant er mwyn grymuso ein cymunedau ehangach	Cadarnhau ein hyfforddiant staff i gynorthwyo datblygiad adnoddau a gwybodaeth	Treialu detholiad o gyrsiau cydraddoldeb rhan-amser i randdeiliaid a phartneriaid	Lansio cwrs rhan-amser ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i'r gymuned ehangach

Amcan Tri:
Amgylcheddau Cynhwysol

Byddwn yn archwilio ac yn gwerthuso'n rheolaidd gynwysoldeb ein hadeiladau a'n hamgylcheddau i sicrhau bod pawb yn teimlo'n gartrefol yng Ngholeg Cambria

Er mwyn cyflawni'r amcan hwn byddwn yn:	Amserlen (cynllun gweithredu manwl wedi'i fonitro'n fewnol)		
	Gwaith yn y cyfnod cynnar	**Nodau tymor canolig**	**Nodau tymor hir**
Sefydlu trefn ar gyfer archwiliadau cynhwysiant blynyddol ar gyfer ein holl safleoedd, lleoedd ac unrhyw gynlluniau ar gyfer y dyfodol. Sicrhau ein bod yn cysylltu â sefydliadau arbenigol i lywio ein harchwiliadau.	Adolygu archwiliadau cynhwysiant blaenorol o safleoedd i sicrhau bod camau gweithredu wedi'u cwblhau	Datblygu proses ar gyfer archwiliad cynhwysiant blynyddol o'n holl safleoedd ac ymgynghori â sefydliadau i'w datblygu	Ymgorffori proses ar gyfer archwiliadau cynhwysiant ac asesiadau effaith cydraddoldeb wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol ac adeiladu newydd
Adeiladu cyfleusterau priodol ar gyfer pob hunaniaeth ar bob safle gan gynnwys seilwaith a chynigion	Adolygu ein cyfleusterau presennol i ddatblygu darlun o'r cynwysoldeb ar yr holl safleoedd ar hyn o bryd	Ymgynghori â'r rhai sydd â phrofiad o fyw i ddeall lle y gellir gwneud gwelliannau i gyfleusterau	Sefydlu cyfleusterau priodol ar bob safle coleg a pharhau i ymgynghori â chymunedau ar welliannau
Defnyddio technolegau newydd a rhai sy'n datblygu er mwyn newid a gwella'r ddarpariaeth cydraddoldeb	Cynnal gwaith ymchwil a thrafodaethau i ddeall technolegau newidiol o ran CAC	Treialu'r defnydd o dechnolegau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, meddalwedd ac adnoddau digidol i gefnogi cynhwysiant ar draws y coleg, gan ystyried lliniaru rhagfarnau cynhenid a'r potensial ar gyfer rhaniad digidol a mynediad ar draws nodweddion gwarchodedig	Adolygu'r defnydd o'r technolegau hyn a pharhau i ddatblygu atebion arloesol i gydraddoldeb a chynhwysiant
Adolygu ein dulliau cyfathrebu er mwyn deall ac archwilio i effaith yr iaith y byddwn yn ei defnyddio	Gweithredu canllawiau 'Cymraeg plaen/ Saesneg plaen' sy'n canolbwyntio ar wneud iaith yn hygyrch	Ymgorffori canllawiau iaith sy'n ystyriol o drawma yn ein cyfathrebiadau	Deall profiadau'r rhai sydd â Saesneg fel ail iaith a defnyddio technolegau arloesol i ddatblygu cyfathrebiadau sy'n eu cefnogi nhw
Sicrhau bod ymrwymiad Coleg Cambria i amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant yn cael ei arddangos yn weledol gan sefydlu'r coleg fel amgylchedd diogel i bawb	Nodi a datblygu ein gwerthoedd CAC craidd rydym am eu harddangos ar draws ein cymunedau	Nodi ymgyrch cyfathrebu cydraddoldeb gweledol i'w harddangos ar draws ein cyfleusterau a'n hamgylchedd	Datblygu cynllun ar gyfer sut beth yw 'mannau diogel' a hyfforddi staff ar sut i ddatblygu eu maes nhw yn unol â hynny

Amcan Pedwar:
Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Mewnweledol

Byddwn yn casglu data priodol er mwyn cael gwared ar rwystrau at gydraddoldeb ac ehangu dealltwriaeth o amrywiaeth

Er mwyn cyflawni'r amcan hwn byddwn yn:	Amserlen (cynllun gweithredu manwl wedi'i fonitro'n fewnol)		
	Gwaith yn y cyfnod cynnar	**Nodau tymor canolig**	**Nodau tymor hir**
Adolygu ein dulliau casglu data er mwyn sicrhau bod data cydraddoldeb cydweithwyr a dysgwyr yn gywir ac yn addas	Nodi'r ffyrdd rydym yn casglu data cydraddoldeb ar hyn o bryd ac arloesi atebion ar gyfer gwella ansawdd data	Sefydlu systemau newydd ar gyfer casglu data cydraddoldeb sy'n rhoi lle i bobl ddiweddaru eu nodweddion	Monitro ein data i nodi tueddiadau i ymateb yn rhagweithiol i anghenion a newidiadau
Defnyddio data, ymchwil a'r polisi i lywio'r holl gynllunio cydraddoldeb gan aros ar y blaen i newidiadau ym maes Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	Defnyddio data, ymchwil a pholisïau yn ein darpariaeth CAC ac adeiladu darlun dyfnach o'r dirwedd	Cynnal ein gweithgareddau ymchwil a mewnwelediad ein hunain i greu dealltwriaeth ddyfnach o sut mae CAC yn effeithio arnom ni	Lledaenu a rhannu ein dysgu yn ehangach trwy gyfraniadau mewn cynadleddau, blogiau a mentrau cenedlaethol
Adolygu ein canllawiau Asesiad Effaith Amgylcheddol gan wneud defnydd ychwanegol ohonynt y tu hwnt i'r polisïau fel rhan o waith archwilio holl brosesau a gwasanaethau'r coleg	Adolygu ein fformat, canllawiau a hyfforddiant AEG i ddatblygu asesiad manwl a dilys	Treialu deunyddiau newydd a monitro'r effaith a gynhyrchir drwy ymgysylltu â chydweithwyr sy'n eu defnyddio	Cyflwyno AEG o bolisïau i edrych ar brosesau, gwasanaethau ac adrannau
Rhoi rhagor o bwyslais ar gydraddoldeb yn ein systemau llywodraethu er mwyn sicrhau ei fod yn rhan o bopeth a wnawn	Datblygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb yn dilyn cyhoeddi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol	Adolygu aelodaeth a chylch gorchwyl y Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	Ymgorffori CAC o fewn prosesau gwella parhaus ehangach y coleg
Defnyddio offer a fframweithiau meincnodi cenedlaethol er mwyn monitro ein safle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth chynhwysiant	Nodi offer a fframweithiau meincnodi allweddol a fydd yn fuddiol i'n blaenoriaethau CAC	Cryfhau cysylltiadau â breichiau CAC cyrff a sefydliadau e.e. Colegau Cymru, Cymdeithas y Colegau	Gweithio i gyflawni achrediadau a gwobrau am feysydd CAC rydym yn dymuno eu datblygu

Amcan Pump:
Sicrhau Tegwch

Byddwn yn creu tegwch i bawb wrth adnabod rhwystrau a chael gwared arnynt, a gweithredu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer taith y dysgwyr a'r gweithwyr

Er mwyn cyflawni'r amcan hwn byddwn yn:	Amserlen (cynllun gweithredu manwl wedi'i fonitro'n fewnol)		
	Gwaith yn y cyfnod cynnar	**Nodau tymor canolig**	**Nodau tymor hir**
Darparu cymorth a phrofiadau dysgu berthnasol ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn astudio llwybrau Addysg Bellach	Archwilio ein darpariaethau presennol ar gyfer llwybrau nad ydynt yn AB a'u dulliau CAC	Ymchwilio i ddata a phrofiadau dysgwyr sydd ar lwybrau nad ydynt yn AB o ran CAC	Staff ac arweinwyr mewn llwybrau nad ydynt yn AB i gael cyngor ac arweiniad wedi'u targedu yn ogystal â hyfforddiant
Darparu profiad pontio croesawgar i fyfyrwyr o gymunedau amrywiol fel bod pawb yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u bod yn rhan o Goleg Cambria o'r eiliad y maent yn cyrraedd	Ymchwilio profiad pontio presennol dysgwyr o gymunedau amrywiol	Treialu ffyrdd newydd ac arloesol o gynnig cyfnod pontio â chymorth i ddysgwyr o gymunedau amrywiol	Cadarnhau cysylltiadau gyda grwpiau a chymunedau lleol i gynyddu'r cymorth pontio
Darparu ffyrdd creadigol o sicrhau bod staff yn cael eu recriwtio ac yn gwneud cynnydd mewn modd teg a chynhwysol	Ymchwilio i brofiadau staff ac ymgeiswyr llwyddiannus o ran cynhwysiant	Gweithredu'r camau gweithredu a nodwyd o'r prosiect Recriwtio Cynhwysol i wella'r profiad recriwtio	Ymgorffori cynlluniau datblygiad i staff o bob lefel allu archwilio gyrfaoedd eraill o fewn y sefydliad
Ymgymryd ag adolygiad blynyddol o fylchau cyflog o ganlyniad i rhywedd, ethnigrwydd neu anabledd a gweithredu ar unrhyw gamau sydd wedi'u nodi er mwyn cau'r bylchau hyn	Adolygu ein bylchau cyflog rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd yn flynyddol i olrhain tueddiadau a monitro'n barhaus	Ymgorffori'r gweithredoedd o'r adroddiad bwlch cyflog 2024 yn ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb	Monitro'r bylchau cyflog rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd i fesur effaith gweithredoedd
Ehangu'r defnydd o'r dangosfwrdd DICE er mwyn adolygu, monitro a threfnu ymyrraeth ar gyfer unrhyw fylchau sydd wedi'u nodi	Gwella ein dulliau casglu data i gasglu data priodol i fynd ar ein dangosfwrdd DICE	Datblygu'r ffyrdd y gellir diweddaru data dysgwyr mewn blwyddyn i fonitro nodweddion newidiol e.e. rhywedd, rhywioldeb, crefydd	Datblygu'r ffyrdd y gellir diweddaru data dysgwyr mewn blwyddyn i fonitro nodweddion newidiol e.e. rhywedd, rhywioldeb, crefydd

4. Trefniadau

Trefniadau i fonitro cynnydd ar fodloni ein hamcanion cydraddoldeb

- Bydd y coleg yn nodi amcanion cydraddoldeb mewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol bob pedair blynedd.
- Er mwyn monitro'r cynnydd ar gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb bydd y coleg yn datblygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb mewnol a fydd yn rhoi trosolwg o'r camau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni ein hamcanion.
- Bydd y Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn monitro'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb i sicrhau ei fod yn cael ei gwblhau yn unol â phrosesau llywodraethu'r coleg a gwelliant parhaus.
- Bydd y coleg yn cyhoeddi ein cynnydd ar gyflawni'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb, yn ogystal â gwybodaeth cydraddoldeb perthnasol o ran y nodweddion gwarchodedig mewn Adroddiad Effaith ar Gydraddoldeb. Bydd hyn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y coleg bob mis Medi.
- Mae gan uwch ddeilydd swydd dynodedig gyfrifoldeb strategol am yr agenda cydraddoldeb ac amrywiaeth ac mae'n goruchwylio gweithredu, monitro ac adolygu cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy'r sefydliad.
- Mae'r coleg yn cyflogi Cydlynydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth llawn amser sy'n gyfrifol am hyrwyddo CAC o fewn y sefydliad.



4. Trefniadau

Trefniadau i nodi, casglu a chyhoeddi gwybodaeth am gydraddoldeb

- Er mwyn casglu gwybodaeth am ein perthynas â dyletswydd gyffredinol, bydd cydweithwyr sy'n gyfrifol am gamau gweithredu o fewn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb mewnol yn aelodau o'r Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a byddant yn diweddaru eu cynnydd bob tymor.
- Bydd y tîm Adnoddau Dynol yn casglu gwybodaeth mewn perthynas â bylchau cyflog ar sail rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd. Bydd hyn yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol a bydd y rhesymau dros gau'r bylchau yn cael eu hymgorffori o fewn y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb mewnol. Mae Cynllun Gweithredu ar gyfer bylchau cyflog presennol ar gael yn ein **Hadroddiad Bwlch Cyflog.**
- Gall dysgwyr a staff ddatgelu 'nodweddion gwarchodedig' gan gynnwys unrhyw anableddau neu anghenion eraill. Bydd y coleg yn darparu addasiadau rhesymol mewn ymateb i anghenion unigol ac ni fydd yn rhoi unrhyw un dan anfantais ar sail anghenion o'r fath.
- Lle mae data nodweddion gwarchodedig ac anghenion cymorth yn cael eu casglu a'u storio gan y Coleg, gwneir hynny'n briodol ac yn unol â chanllawiau diogelu data.
- Mae'r Coleg yn meithrin systemau priodol ar gyfer casglu: data staff, myfyrwyr, ymgeiswyr am swydd ac ymgeiswyr sy'n fyfyrwyr mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig, ac maent yn gwella'r systemau hynny'n barhaus.
- Mae'r Coleg yn cofnodi ac yn monitro data'n rheolaidd ynghylch cynnydd gwahanol grwpiau o nodweddion i sicrhau bod unrhyw fylchau'n cael eu nodi'n ddigonol a bod y coleg yn mynd i'r afael â nhw.

Trefniadau ar gyfer asesu effaith ar Grwpiau Gwarchodedig

- Bydd y Coleg yn cynnal Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb i asesu goblygiadau polisïau ac arferion ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae AEG yn cael ei adolygu a'i gymeradwyo gan y Cydlynydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.
- Lle mae effaith sylweddol ar ein gallu i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol yn cael ei ganfod, bydd hyn yn cael ei gyhoeddi yn ein Hadroddiadau Effaith ar Gydraddoldeb blynyddol.
- Mae'r Coleg yn datblygu ein harweiniad a chefnogaeth yn barhaus i staff sy'n cwblhau Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb. Rydym yn cyflenwi pecynnau cymorth a chefnogaeth i staff sy'n asesu effaith eu polisïau a'u harferion.
- Mae gan y coleg fecanweithiau cymorth a chwynion effeithiol yn eu lle ar gyfer unrhyw un sydd wedi bod yn dyst i aflonyddu, gwahaniaethu neu erledigaeth neu sydd wedi profi hynny.

Trefniadau ar gyfer deall Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac amcanion cydraddoldeb

- Bydd y coleg yn cyhoeddi ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol, Adroddiad Effaith ar Gydraddoldeb, Adroddiad Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau ac unrhyw gynlluniau ac adroddiadau perthnasol eraill.
- Bydd y coleg yn hyrwyddo ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol a'n hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth trwy gydol ein cyfathrebu mewnol ac allanol.
- Mae'r coleg yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol i gydweithwyr trwy wybodaeth a hyfforddiant a ddarperir trwy gydol y flwyddyn.
- Mae'r strategaeth hon yn berthnasol i holl aelodau cymuned y coleg, gan gynnwys cydweithwyr, dysgwyr ac ymwelwyr. Mae'r strategaeth hefyd yn berthnasol i'n contractwyr allanol, cyflogwyr a phartneriaid eraill y mae'r coleg yn cydweithio â nhw.
- Mae'r strategaeth yn berthnasol i bob safle ac adeilad sy'n perthyn i Goleg Cambria neu a ddefnyddir gan Goleg Cambria i gyflawni ei swyddogaethau.
- Caiff hyfforddiant ei gynnal gan y tîm Dysgu Proffesiynol sy'n nodi anghenion hyfforddi unigolion ac adrannau ar y cyd â'r Tîm Cynhwysiant.
- Mae pob gweithiwr newydd yn dilyn hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n manylu ar ein dyletswyddau a'u cyfrifoldebau i gynnal y dyletswyddau. Mae ein dull CAC penodol yn cael ei gyflwyno i staff trwy'r sesiwn ymsefydlu ar gynhwysiant i weithwyr newydd.

COLEG CAMBRIA

CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL

2024-2028

WWW.CAMBRIA.AC.UK